

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 18fed Ionawr 2017 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr Mrs. E.M. Chard, A. R. James, Ms J. McAlpine, S.H. Ratcliffe, a T. Thomas

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

46. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cyngorwyr Ms. J. Hughes (ymrwymiad arall), B. F. Moylan (yn sâl), Miss S. Roberts (yn sâl), A.J. Rutherford (ymrwymiad arall), a'r Parchedig S. Walker (ymrwymiad gwaith).

47. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

Nodyn 2: Dywedodd/Ail-ddywedodd yr Aelodau canlynol sydd hefyd yn gwasanaethu ar Gyngor Sir Ddinbych eu bod, wrth gymryd penderfyniadau ar y ceisiadau, yn gwneud hynny ar sail yr wybodaeth a oedd ger eu bron nawr ac os oedd angen ystyried y ceisiadau yng Nghyngor Sir Ddinbych, y byddant yn edrych ar y ceisiadau o'r newydd yn seiliedig ar yr wybodaeth a fydd ar gael bryd hynny, ac oherwydd hynny efallai y byddant yn dod i benderfyniad gwahanol arnynt.

Y Cynghorydd A.R. James
Y Cynghorydd Mrs. W. Mullen James

CEISIADAU CYNLLUNIO

47.1 **LLEOLIAD Y SAFLE:** HSBC, 23 Ffordd Wellington, y Rhyl

WARD: Bodfor

Rhif y CAIS: 45/2016/1221/1222

Adnewyddu arwyddion ar ddrychiadau blaen ac ochr yr adeilad.

Yr ymgeisydd yw HSBC Corporate Real Estate, 1 Canada Square, Llundain.

	<p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad cyn belled â bod y cyfieithiad Cymraeg cywir yn cael ei ddefnyddio ar Ddrws y Fynedfa, ac nid fel y dangosir ar y cynlluniau.</p>
47.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Cyn Gapel Salem, Warren Road, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Foryd</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/1112</p> <p>Newidiadau allanol gan gynnwys estyniad gyda thŵr minarét, canopi a ffenestri dormer, rhannol newid defnydd i ymgorffori fflat ollgynhwysol a newidiadau i'r fynedfa i gerbydau.</p> <p>Yr ymgeisydd yw Mr Mohammad Nasser o'r Ahmadiyya Muslim Association UK, 181 London Road, Morden, Surrey</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad yn ddarostyngedig i amod yn cyfyngu defnydd o systemau sain yn yr adeilad. Tra bod y Cyngor yn nodi bod y dogfennau cysylltiedig yn dweud nad yw'n fwriad ar hyn o bryd gosod system sain allanol mewn ystyriaeth o fwynderau preswyl eiddo cyffiniol, dylid rhoi amod ar y caniatâd cynllunio.</p>

48. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: